Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Aberaeron

**Stryd Y Fro**
**Aberaeron**
**Ceredigion**
**SA46 0DT**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Aberaeron

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gyfun Aberaeron |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 581 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 489 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 92 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Uwchradd yw 20.2%) | 15.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Uwchradd yw 17.8%) | 27.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 30.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2015 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 10/11/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 06/03/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
[Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gyfun Aberaeron yn gymuned glòs, gynhwysol a dwyieithog. Trwy arweinyddiaeth sensitif y pennaeth a'i uwch dîm, gosodir cyfeiriad cwbl glir sy'n rhoi'r disgybl yn ganolog i holl waith yr ysgol. Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad angerddol a chefnogol dros ddyfodol yr ysgol i'r holl randdeiliaid. Mae arweinwyr wedi meithrin tîm o staff sy'n falch o fod yn rhan o sefydliad sydd yn gyson ddatblygu a gwella.

Mae lles disgyblion yn flaenoriaeth uchel iawn a rhoddir pwyslais cryf ar gefnogi disgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn hapus ac yn ffynnu'n academaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yr ysgol yn bobl ifanc ystyriol a chyfeillgar sy'n dangos gofal am ei gilydd a pharch tuag at staff ac ymwelwyr. Maent yn hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol, sef empathi, uchelgais, creadigrwydd, gwydnwch, hyder a balchder, drwy eu hymddygiad da ac agweddau cadarnhaol at ddysgu.

O ganlyniad i'r ddarpariaeth gydlynus ar draws y pynciau, mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn dda. Maent yn elwa o gyfleoedd pwrpasol i ddarllen ar goedd i dyfu'n ddarllenwyr hyderus ac i ddatblygu ystod o fedrau digidol mewn pynciau gwahanol.

Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, ceir ystod eang o gyrsiau diddorol i ddisgyblion ddewis ohonynt gan gynnwys rhai sy'n berthnasol i'r ardal leol. Mae arlwy eang iawn o brofiadau allgyrsiol gwerthfawr ar gael ar gyfer y disgyblion i gyfoethogi'u profiadau dysgu ymhellach.

Er bod cryfderau yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol lle ceir cynllunio gofalus sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn cynnig her briodol iddynt, mae diffygion cyffredin yn nisgwyliadau, cynllunio a holi lleiafrif o athrawon. O ganlyniad, nid yw eu gwersi'n cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion fod yn weithredol yn y wers.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad yn eang a chydlynus ac mae gan staff ddealltwriaeth glir o'u rôl i gadw disgyblion yn ddiogel. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn glir ynghylch at bwy i droi pan fydd angen cymorth a chefnogaeth arnynt ac maent yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth gref maent yn ei derbyn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn elfen nodedig o waith yr ysgol. O ganlyniad i ystod eang a chynhwysfawr o ymyraethau, mae disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd cryf iawn. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fynegi barn ar eu gwaith a chwarae rhan bwysig mewn datblygiadau. Mae cyfraniad disgyblion y chweched dosbarth yn allweddol i lawer o weithgareddau diwylliannol a chymdeithasol yr ysgol.

Mae hunanwerthuso a chynllunio gwelliant wedi arwain at welliannau dros gyfnod. Fel arfer, mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn fanwl gan adnabod cryfderau a meysydd penodol i'w gwella. Mewn ychydig o weithgareddau sicrhau ansawdd, nid yw arweinwyr yn ystyried effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion yn ddigon miniog.

## Argymhellion

A1 Gwella'r diffygion a nodir am yr addysgu yn yr adroddiad

A2 Cryfhau arfarniadau mewn ychydig o weithgareddau sicrhau ansawdd i ystyried effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion yn agosach

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos i'w lledaenu ar wefan Estyn, ar ei gwaith mewn perthynas ag (i) effaith y ddarpariaeth eang o ymyraethau i gefnogi datblygiad medrau llythrennedd, rhif, motor, personol, emosiynol ac ymddygiadol disgyblion a (ii) rhaglen ysgol gyfan i godi safonau darllen.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth bynciol. Yn y gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn adalw gwybodaeth flaenorol yn llwyddiannus ac yn cymhwyso'r wybodaeth hon yn briodol i gyd-destun newydd. Mewn ychydig iawn o achosion, lle mae'r addysgu'n effeithiol iawn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd buan yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol. Yn yr achosion hyn, mae'r disgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth yn fedrus wrth ymgymryd â thasgau a chymhwyso hyn i gyd-destunau newydd gan wneud cysylltiadau uniongyrchol â'r hyn y maent wedi'i ddysgu'n flaenorol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd ac nid ydynt yn datblygu eu medrau pwnc na'u gwybodaeth yn ddigon cadarn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn barchus ar gyflwyniadau gan eu hathrawon ac ar gyfraniadau eu cyfoedion. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn rhugl gan ddefnyddio tafodiaith naturiol Gymraeg sy'n llifo'n rhwydd. Maent hefyd yn defnyddio'r Saesneg yn hyderus, gydag ystod dda o eirfa. Mae ychydig o ddisgyblion yn cyfathrebu ar lafar yn huawdl yn y ddwy iaith ac mae ganddynt afael gadarn ar ystod eang o dermau pwnc a geirfa soffistigedig. Er enghraifft, yn y gwersi Cymraeg, maent yn defnyddio geirfa gyfoethog ac eang wrth drafod y cysylltiad posibl rhwng Cymru ac Iwerddon drwy drafod iaith a llenyddiaeth y ddwy wlad fel cefndir i'r chwedlau. Fodd bynnag, mae diffyg hyder a diffyg geirfa ychydig o ddisgyblion yn golygu eu bod yn cael trafferth cyfleu eu syniadau'n eglur yn y Gymraeg. Yn y ddwy iaith, mae lleiafrif y disgyblion yn tueddu i gynnig atebion llafar byr, heb eu datblygu'n llawn. Yn aml, mae hyn oherwydd nad oes ganddynt ystod ddigon eang o eirfa i gyfleu eu hunain yn llawn neu oherwydd natur yr holi gan yr athro.

O gael y cyfle, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i ddarllen ar goedd ac mae llawer yn hyderus wrth wneud hynny. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen buddiol wrth gywain gwybodaeth a lleoli ffeithiau mewn testunau estynedig. Er enghraifft, yn y gwersi hanes, maent yn darllen ffynonellau tystiolaeth am fudo i Batagonia yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae disgyblion uwch eu gallu yn dadansoddi a chymharu testunau llenyddol yn llwyddiannus, er enghraifft yn eu gwersi Saesneg pan fyddant yn ystyried teimladau'r beirdd am ryfel yn y cerddi 'Lessons' a 'The Soldier'.

Drwyddi draw, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn y Gymraeg a Saesneg, gyda lefel dda o eglurder a geirfa briodol. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn trefnu eu gwaith ysgrifenedig yn synhwyrol gan ddefnyddio strwythur pendant a pharagraffu clir. Maent yn ysgrifennu mewn arddull addas at ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd yn y ddwy iaith, er enghraifft wrth fynegi barn yn dilyn ymchwil a dadansoddi ffynonellau am gasineb tuag at Iddewon yn eu gwersi addysg grefyddol. Mae'r disgyblion mwy abl yn defnyddio ystod eang o eirfa a chystrawen neu ymadroddion soffistigedig yn eu gwaith ysgrifenedig. Fodd bynnag, yn y Gymraeg a Saesneg, mae gwallau gramadegol a sillafu esgeulus yng ngwaith ysgrifenedig lleiafrif y disgyblion.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhifedd cadarn. Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o'u medrau rhifedd mewn llawer o bynciau yn ogystal â mathemateg. Er enghraifft, maent yn defnyddio eu dealltwriaeth o siâp a gofod wrth greu lluniadau 3D o'u terrarium ar bapur isomedrig yn eu gwersi dylunio a thechnoleg. Mae llawer o ddisgyblion yn dadansoddi data yn briodol ac yn ei arddangos ar ffurf graffiau. Er enghraifft, yn eu gwersi daearyddiaeth, maent yn cyfrifo, arddangos a dadansoddi'r wybodaeth wrth ystyried defnydd o ddŵr yn y cartref.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn fuddiol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn defnyddio meddalwedd yn gelfydd wrth ddylunio logos ar gyfer Eisteddfod yr ysgol a chreu siartiau cylch wedi'u hymgorffori mewn taenlenni wrth astudio'r tywydd yn eu gwersi daearyddiaeth.

Lle mae cyfleoedd buddiol iddynt weithio'n annibynnol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud datblygiad cadarn yn eu medrau meddwl a datrys problemau. Er enghraifft, yn eu gwersi Saesneg, maent yn ystyried pa gymeriadau o'r ddrama 'A View from the Bridge' fyddai'n chwarae pa safle yn eu tîm pêl-droed 5 bob ochr gan gynnig rhesymau cytbwys dros eu hatebion. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol gwerthfawr. Yn y gwersi celf, maent yn astudio gwaith arlunwyr lleol ac yn creu delweddau pensil cywrain o Aberaeron. Yn y gwersi addysg gorfforol, mae llawer yn arddangos medrau corfforol llwyddiannus, er enghraifft wrth ddatblygu techneg effeithiol i dderbyn a phasio'r baton mewn ras gyfnewid.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd cryf yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae disgyblion yn y ganolfan adnoddau arbenigol, 'Canolfan y Môr', sydd â chyflyrau sbectrwm awtistiaeth, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau lleferydd, iaith a chyfathrebu cymdeithasol yn ystod eu hamser yn y ganolfan.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn dweud eu bod yn rhydd rhag bwlio. Maent yn gwybod at bwy i droi petai achos o bryder ganddynt. Maent yn dangos parch at ymwelwyr, staff ac at ei gilydd. Mae'r disgyblion yn arddel ymdeimlad cryf o falchder ac o berthyn i gymuned yr ysgol.

Mae disgyblion penodol yn derbyn cefnogaeth werthfawr i gefnogi eu datblygiad ymddygiadol ac emosiynol mewn ystod o ganolfannau cymorth. Mae rhain yn cynnwys yr 'Hafan', 'Encil', y 'Ganolfan Ddysgu' a'r 'Ganolfan Groeso'. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn elwa o'r gofal a'r gefnogaeth maent yn eu derbyn ac yn gwneud cynnydd yn eu medrau personol.

Mae disgyblion, gan gynnwys rhai sydd ag ADY, yn ymgymryd â rolau arweinyddiaeth, fel aelodau o'r cyngor ysgol neu'r pwyllgor eco. Mae penderfyniadau'r cyngor ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol drwy, er enghraifft, sicrhau bod mwy o a dewis o fwyd fegan yn y ffreutur a mannau eistedd a chymdeithasu o amgylch y safle. Ar hyn o bryd, maent yn trafod sut y gellir gwobrwyo ymddygiad da yn eu gwersi. Mae disgyblion, drwy'r fforwm dysgu ac addysgu, yn rhannu eu barn am agweddau o addysgu ac asesu ac am gynyddu'r cynnig cwricwlaidd yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth.

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn llysgenhadon arbennig i'r ysgol. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac maent yn datblygu'n bobl ifanc hyderus, aeddfed a chyfrifol. Maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i fywyd yr ysgol a thrwy hyn yn datblygu medrau arwain buddiol. Er enghraifft, maent yn trefnu'r ffair Nadolig, arwain yn yr Eisteddfod ysgol a chydlynu gweithgareddau casglu arian at elusennau.

Mae'r disgyblion yn elwa'n gymdeithasol o'r arlwy arbennig o glybiau allgyrsiol sy'n cynnwys clwb Cymraeg i bawb (CIB), clwb gwyddbwyll a chlwb ffeministiaeth. Mae niferoedd uchel o ddisgyblion yn mynychu'r clybiau yn rheolaidd. Mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o fyw'n iach trwy gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon. Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi ac yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a phrofiadau creadigol, diwylliannol a dysgu sydd ar gael.

Mae parch rhwng staff a disgyblion yn elfen gref o ethos yr ysgol ac mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion berthynas waith gadarnhaol iawn â'r athrawon. Yn gyffredinol, mae ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf yn brydlon i wersi ac yn setlo'n syth i weithio.

Mae agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion at ddysgu yn gyson dda ac maent yn canolbwyntio'n effeithiol yn eu gwersi. Maent yn gwrando'n astud ar yr athro a'u cyfoedion, ac maent yn frwdfrydig wrth ymgymryd â thasgau yn y dosbarth. O gael y cyfle, mae llawer o ddisgyblion yn gweithio'n dda mewn grwpiau gan gyd-drafod a rhyngweithio'n briodol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni anghenion bron pob un o'r disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 4, mae ystod o ddewisiadau pwnc sy'n cynnwys cyrsiau galwedigaethol fel peirianneg, adeiladwaith ac iechyd a gofal. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm amgen defnyddiol i ddisgyblion yn y 'Ganolfan Ddysgu' a dosbarth Canolfan Croeso yng nghyfnod allweddol 4 a 5 sy'n cynnwys cyrsiau galwedigaethol pwrpasol fel sgiliau gwaith, datblygiad cymdeithasol personol a choginio cartref. Mae hyn yn paratoi'r disgyblion am fywyd tu hwnt i'r ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnig arlwy eang o gyrsiau i'r chweched dosbarth yn ogystal â chyrsiau e-sgol mewn cydweithrediad ag ysgol uwchradd leol. Darperir gwybodaeth ac arweiniad buddiol i ddisgyblion wneud dewisiadau gwybodus trwy eu cynghori i ddilyn y trywydd sydd fwyaf addas iddynt ar gyfer y dyfodol.

Mae gwaith ar ddylunio'r cwricwlwm, ynghyd â ffocws penodol ar wella addysgu, wedi arwain at weledigaeth glir ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Mae staff wedi datblygu a phrofi unedau gwaith diddorol sy'n anelu at ddatblygu gwybodaeth bynciol, dealltwriaeth a medrau disgyblion. Er enghraifft, rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion Blwyddyn 7 astudio a choginio bwydydd iach a gwerthuso sut mae maeth yn elwa'r corff yn eu gwersi iechyd a lles. Mae staff wedi treialu amrywiaeth o strategaethau addysgu, wedi gwerthuso'u heffeithiolrwydd ac addasu a mireinio eu cynllunio i gryfhau'r ddarpariaeth. Mae'r athrawon yn cydweithio'n agos â'r ysgolion cynradd o fewn clwstwr Aeron i gynllunio'r dilyniant dysgu.

Mae'r cydlynwyr medrau yn cydweithio'n effeithiol ag adrannau i adnabod cyfleoedd pwrpasol i gynllunio a datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion. Yn dilyn y pandemig, mae arweinwyr wedi canolbwyntio ar strategaethau penodol i wella

medrau llythrennedd disgyblion, gan gynnwys llafaredd, er mwyn gwella gallu disgyblion i drafod. Mae arweinwyr yn gweithio'n ddiwyd i wella a chryfhau medrau darllen disgyblion yn ogystal â hybu eu diddordeb a'u mwynhad o ddarllen. Mae'r ysgol yn meithrin diwylliant o ddarllen sy'n cynnig profiadau gwerthfawr i ddisgyblion ar draws yr ysgol. Mae cyfle i fwynhau sesiynau darllen o dan arweiniad, ac yn ogystal, cyfleoedd buddiol i ddatblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol.

Mae'r cydlynydd rhifedd yn gweithio gyda phynciau perthnasol i ddatblygu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gryfhau eu medrau rhifedd. Fodd bynnag, nid yw pob adran wedi ymateb i sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar y lefel briodol. Mae cyfleoedd niferus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgyblion sydd yn llysgenhadon digidol yn cynnig cymorth defnyddiol i ddisgyblion a staff o fewn y dosbarthiadau ac yn creu fideos cyfoes i'w dangos mewn cyfnodau boreol ar bynciau megis e-ddiogelwch.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn effeithiol. Yn ystod gwersi lles a chyfnodau boreol, ceir cyfleoedd buddiol i drafod pynciau cyfoes ac amserol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd creadigol a diwylliannol gwerthfawr i ddisgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys teithiau lleol a rhyngwladol, a chlybiau fel y clwb rhwyfo, clwb crosio, sesiynau ioga a'r clwb pêl-fasged cymysg. Mae'r ysgol yn hyrwyddo Cymreictod a hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn briodol drwy weithgareddau amrywiol fel y Clwb CIB (Cymraeg i Bawb), Eisteddfod flynyddol yr ysgol, gweithgareddau'r Urdd ac wrth ddathlu achlysuron Cymreig fel diwrnod Santes Dwynwen.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae gan athrawon berthynas weithio bositif â'u disgyblion ac maent yn creu amgylchedd dysgu cefnogol a chartrefol. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gadarn ac mae llawer yn rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir sy'n cefnogi disgyblion i gwblhau eu gwaith. Maent hefyd yn darparu adnoddau buddiol i gefnogi'r dysgu. Mae llawer o athrawon yn symud o amgylch yr ystafell ddosbarth yn rheolaidd er mwyn cynnig cyngor defnyddiol i ddisgyblion ynglŷn â sut i wella eu gwaith.

Mae mwyafrif yr athrawon yn cynllunio tasgau defnyddiol sy'n adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol y disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth, gwybodaeth a'u medrau. Maent yn diwallu anghenion unigol disgyblion drwy gynnig strwythur defnyddiol er mwyn helpu'r disgyblion i symud ymlaen heb gyfyngu ar yr her. Mae'r athrawon hyn yn frwdfrydig, yn holi'n briodol i wirio dealltwriaeth ac yn modelu atebion a therminoleg bynciol er mwyn helpu disgyblion i ddeall beth sydd angen iddynt ei gyflawni.

Yn yr ychydig iawn o achosion lle mae'r addysgu ar ei orau, mae'r athrawon yn cynllunio gwersi dychmygus ac yn darparu tasgau heriol a diddorol sy'n ysgogi disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae'r athrawon hyn yn gofyn cwestiynau treiddgar sy'n symbylu'r disgyblion i feddwl yn ddyfnach, ymestyn eu dealltwriaeth a chyfiawnhau eu safbwyntiau.

Mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r addysgu'n sicrhau bod disgyblion yn cyflawni eu potensial. Yn aml, mae hyn oherwydd bod athrawon yn cynllunio cyfres o dasgau yn hytrach nag ystyried beth sydd angen i'r disgyblion ei wybod, ei ddeall neu allu ei wneud. Maent yn tueddu i siarad gormod neu'n gosod tasgau sy'n parhau'n rhy hir ac mae hyn yn llesteirio cyflymdra'r dysgu. Nid yw'r athrawon hyn yn gosod digon o her nac yn holi cwestiynau digon treiddgar i annog y disgyblion i feddwl yn ddyfnach neu

i ystyried safbwyntiau ehangach. Yn sgil hyn, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ymateb, i drafod a chyfrannu ar lafar.

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig ar waith disgyblion yn amrywio o fewn ac ar draws adrannau. Yn yr esiamplau gorau, mae athrawon yn tynnu sylw disgyblion at gamgymeriadau, gan gynnwys gwallau iaith a sillafu, ac yn cynnig sylwadau gwerthfawr ac awgrymiadau buddiol ar sut i wella. Serch hyn, nid yw'r adborth hwn bob tro'n arwain at welliant yng ngwaith y disgyblion. Nid yw disgyblion bob amser yn cael digon o gyfleoedd i ymateb i sylwadau'r athrawon.

Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gynnydd eu plentyn drwy nosweithiau rieni, adroddiadau interim a llawn. Mae adroddiadau i rieni yn cynnwys gwybodaeth am gyflawniad a chynnydd y plentyn, ynghyd â thargedau defnyddiol ar sut i wella.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Gyfun Aberaeron yn gymuned hynod ofalgar, cynhwysol a chefnogol. Rhoddir pwyslais cryf ar ddarparu cyfleoedd i bob disgybl ffynnu'n  academaidd ac yn gymdeithasol, ni waeth beth yw ei anghenion neu anawsterau.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i fonitro presenoldeb. Mae staff yn delio'n amserol ac effeithiol â'r achosion prin iawn o fwlio. Rhoddir cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion sydd angen anogaeth emosiynol ac ymddygiadol yn yr 'Hafan' a'r 'Encil'. Mae arweinwyr perthnasol yn cydweithio'n effeithiol a chynhyrchiol ag ystod eang o asiantaethau allanol i gefnogi lles a llesiant disgyblion. Maent hefyd yn ymgysylltu a chydweithio'n effeithiol â rheini er mwyn cefnogi cyfranogiad a chynnydd disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnal 'syrjeri rhieni' wythnosol i drafod pryderon a chynnig cymorth. Er enghraifft, cynigir gweithdai i gryfhau hyder rhieni i gynorthwyo â darllen eu plant.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn nodwedd eithriadol. O dan arweinyddiaeth ddylanwadol y cydlynydd ADY, cynigir ystod gynhwysfawr o gefnogaeth i ddisgyblion sydd angen cymorth. Mae hyn yn cyfrannu tuag at disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau unigol dros gyfnod. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys ystod eang o ymyraethau cyfoethogi i ddisgyblion ag ADY a disgyblion sydd angen cefnogaeth arbenigol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdai sillafu a rhif, therapi celf i unigolion a grwpiau o ddisgyblion, gwaith storïau cymdeithasol ynghyd â sesiynau therapi clai ar gyfer disgyblion â medrau 'motor' a llawysgrifen wan. Enghraifft neilltuol o gefnogaeth yw'r sesiynau darllen grŵp dwyieithog ddwywaith yr wythnos lle mae nifer o ddisgyblion sydd â medrau darllen gwan yn gwneud cynnydd sylweddol dros gyfnod yn eu medrau darllen a phrosesu.

Mae'r ysgol yn cynnig dwy uned gefnogi bwrpasol i ddiwallu anghenion disgyblion bregus o fewn y prif lif. Mae'r 'Ganolfan Groeso' yn ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymedrol, a'r 'Ganolfan Ddysgu' yn adnodd ar gyfer rhai ag anghenion dysgu cyffredinol. Mae'r ddarpariaeth gwricwlaidd, y gofal a'r cymorth yn y ddwy ganolfan yn eithriadol. O ganlyniad i'r cryfderau hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu, eu medrau personol a'u medrau byw. Elfen gref o hyn yw nifer y disgyblion chweched dosbarth yn y 'Ganolfan Ddysgu' a 'Chanolfan Croeso' sy'n llwyddo i ennill cymwysterau galwedigaethol ac academaidd ac sy'n symud ymlaen i gyrsiau a gwaith perthnasol.

Mae'r ysgol hefyd yn cynnal canolfan adnoddau arbenigol i ddisgyblion â chyflyrau sbectrwm awtistig neu ddwys, sef 'Canolfan y Môr'. Mae llwyddiant y ddarpariaeth hon i ddiwallu anghenion y disgyblion hyn yn nodedig. Mae staff yn gweithio'n nerthol i sicrhau profiadau dysgu teilwng a chyfoethog i'w disgyblion. Er enghraifft, maent yn dysgu am ardal Aberaeron, gan gymharu'r hen dai a'r cychod yn yr harbwr gyda'r rhai presennol a dilyn llwybr treftadaeth y dref. Yn ddiweddar, bu'r disgyblion yn cydweithio mewn prosiect ar y cyd â Theatr Felin Fach i greu perfformiad theatrig gwerthfawr. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol yn eu medrau cyfathrebu a chymdeithasol dros gyfnod. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion 'Canolfan y Môr' yn llwyddo i drosglwyddo'n llwyddiannus i'r 'Ganolfan Groeso' ac yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau annibynnol erbyn iddynt adael yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyson a gwerthfawr i ddisgyblion ar draws yr ystod oedran ddatblygu medrau personol a chymdeithasol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn eang ac yn gronnus. Rhoddir pwyslais haeddiannol ar ddatblygu disgyblion yn unigolion parchus a moesol trwy ddysgu am bwysigrwydd amrywiaeth a thrwy wersi addysg rhywedd a pherthnasoedd buddiol. Ar y cyfan, mae trefniadau addas ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion. Mae cyfleoedd niferus i ddisgyblion ddatblygu empathi a dealltwriaeth trwy waith elusennol. Er enghraifft, maent yn codi arian tuag at ffoaduriaid o Wcráin a dioddefwyr trychinebau Twrci a Syria trwy gynnal stondin gacennau. Trefnir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wneud cyfraniad i'w cymunedau, er enghraifft trwy lanhau traeth Aberaeron, gweithio ar ystâd Llanerchaeron a rhannu cacennau cartref gyda thrigolion lleol sy'n mynychu'r grŵp dementia.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd helaeth i amrediad eang o ddisgyblion rannu eu barn a dylanwadu ar agweddau o fywyd ysgol trwy'r cyngor ysgol a fforymau eraill. Mae'r cydweithio cynhyrchiol diweddar rhwng y pennaeth a grŵp ffocws o blith y chweched dosbarth yn enghraifft ardderchog o ddisgyblion yn arwain a dylanwadu ar fywyd yr ysgol. O ganlyniad i bryder disgyblion hŷn am y cynnydd mewn ieithwedd, ymddygiadau ac aflonyddu rhywiol yn y gymdeithas, lluniwyd polisi pwrpasol ar gyfer yr ysgol a threfnwyd gweithgareddau buddiol i hybu parch a pherthnasoedd iach. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau addysgiadol, ymweliadau gan siaradwyr gwadd a chynllunio sesiynau trafod penodol.

Mae uwch arweinwyr yn blaenoriaethu cadw disgyblion a staff yn ddiogel. Mae trefniadau diogelu ac amddiffyn plant yn gadarn ac yn wybyddus i bawb. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ffyddiog y bydd staff yn ymateb yn briodol i unrhyw achos o bryder ganddynt. Ceir trefniadau cadarn i staff nodi a rhannu consyrn ag uwch arweinwyr ac mae'r person dynodedig ar gyfer diogelu yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol statudol. Mae trefniadau ar gyfer hyfforddi staff a llywodraethwyr mewn materion diogelu yn gyson a chadarn ac mae'r ysgol yn bodloni gofynion statudol parthed recriwtio diogel. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr wedi cydweithio'n agos â'r awdurdod addysg lleol yn ddiweddar i gryfhau diogelwch y safle.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn arweinydd uchelgeisiol sy'n arwain drwy esiampl ac yn trin disgyblion a staff gyda pharch ac empathi. Mae ganddo ddyheadau clir sy'n ffocysu ar sicrhau bod yr ysgol y gorau y gall fod ymhob agwedd o'i gwaith. Mae gweledigaeth yr ysgol wedi'i seilio'n gadarn ar werthoedd craidd cytûn sy'n cael eu

rhannu â rhanddeiliaid ac yn cael eu harddel yn gyson gan staff. Mae arweinwyr a staff yn coleddu gwerthoedd yr ysgol, sef empathi, uchelgais, creadigrwydd, gwydnwch, hyder a balchder, ym mhob agwedd o'u gwaith.

Mae uwch arweinwyr yr ysgol yn cefnogi'r pennaeth yn gadarn ac maent yn dîm arwain effeithiol sydd â disgwyliadau uchel. Maent yn arwain eu meysydd cyfrifoldeb yn llwyddiannus ac yn gyrru gwelliannau ysgol gyfan. Trwy eu hadnabyddiaeth dda o'r staff a'r disgyblion, maent yn llwyddo i gynnal awyrgylch gynhaliol, drws agored sydd wedi arwain at ymdeimlad o dîm ac ethos o wella'n barhaus. Nodwedd gref o hyn yw'r ffordd mae arweinwyr wedi ymateb i'r angen cynyddol i gefnogi llesiant a chynnydd disgyblion drwy'r ystod eang o ddarpariaeth gefnogol yn y canolfannau cefnogi amrywiol.

Ar y cyfan, mae arweinwyr canol yn adnabod eu hadrannau a'u meysydd cyfrifoldeb yn dda. Maent wedi datblygu eu gallu i adnabod y prif gryfderau a meysydd i'w gwella mewn addysgu ac asesu yn briodol. Trwy drefniadau rheolaeth llinell cadarn, mae uwch arweinwyr yn cynnal trafodaethau proffesiynol rheolaidd gyda'u harweinwyr canol cyswllt. Yn gyffredinol, mae ffocws penodol i'r cyfarfodydd hyn ar agweddau strategol megis cynnydd disgyblion, addysgu a blaenoriaethau ysgol gyfan ac adrannol.

Mae trefniadau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad yr holl staff sydd yn caniatáu i arweinwyr eu dwyn i gyfrif am eu gwaith. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais cynyddol ar ddatblygiad proffesiynol eu staff ac adnabod anghenion hyfforddiant penodol. Lle mae angen, mae uwch arweinwyr yn delio'n effeithiol ag unrhyw achosion o danberfformiad gyda lefel briodol o gefnogaeth a her.

Yn gyffredinol, mae uwch arweinwyr yn rhoi sylw cadarn i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, megis lleihau effaith tlodi trwy gefnogi teuluoedd gyda chostau gwisg ysgol. Mae'r ysgol yn paratoi'n dda i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru ym Medi 2023 trwy dreialu a chynllunio. Yn ogystal, mae cydlynwyr y medrau yn llwyddiannus wrth gynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn rhoi sylw teg i ddatblygu medrau'r Gymraeg a cheir pwyslais cynyddol ar Gymreictod.

Mae gan yr ysgol galendr clir o weithgareddau ar gyfer arweinwyr i werthuso gwaith yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu at ddilyniant a chyswllt clir rhwng gweithgareddau sicrhau ansawdd, systemau asesu a chyfarfodydd. Mae prosesau cadarn i gasglu gwybodaeth yn uniongyrchol trwy arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddi data. Trwy'r rhain, mae arweinwyr yn meddu ar adnabyddiaeth dda o gryfderau a meysydd i'w gwella. Ar y cyfan, maen nhw'n arfarnu eu gwaith yn gywir, ond ar brydiau, mae'r gwerthusiad ychydig yn hael gan nad yw arweinwyr bob tro'n ystyried effaith yr addysgu ar safonau disgyblion yn ddigon manwl. Mae'r ysgol yn cynnwys y rhan fwyaf o randdeiliaid yn llwyddiannus yn y broses o werthuso gwaith yr ysgol. Mae'n casglu tystiolaeth uniongyrchol gan lywodraethwyr ac yn holi barn disgyblion, rhieni a staff. Mae uwch arweinwyr yn darparu trosolwg buddiol o agweddau pwysig ar waith yr ysgol ac yn argymell camau gwella defnyddiol, er enghraifft ar ansawdd y ddarpariaeth llythrennedd i Flwyddyn 7.

Mae blaenoriaethau'r ysgol ac adrannol yn deillio'n uniongyrchol o werthusiadau'r flwyddyn flaenorol ac felly'n creu cyswllt clir rhwng y cynlluniau gwella a phrosesau hunanwerthuso. Mae'r blaenoriaethau hyn yn synhwyrol ac yn adlewyrchu anghenion

cyfredol yr ysgol, er enghraifft i gynyddu her mewn gwersi, adalw dysgu blaenorol ac ymateb disgyblion i adborth.

Yn gyffredinol, mae'r gwaith o gynllunio ar gyfer gwella yn fanwl ac mae trefniadau priodol ar gyfer dyrannu cyfrifoldebau a nodi terfynau amser. Mae cynlluniau datblygu adrannol yn adlewyrchu blaenoriaethau'r ysgol ac yn cynnwys blaenoriaethau penodol i'r adran. Mae trefniadau trylwyr i fonitro'r cynlluniau ac mae arweinwyr yn adolygu cynnydd yn rheolaidd yn seiliedig ar yr arfarniadau mwyaf diweddar. Mae gan yr ysgol hanes llwyddiannus o hunanwerthuso a chynllunio gwelliant sydd wedi arwain at welliannau fel cryfhau'r  ddarpariaeth ar gyfer lles disgyblion, cefnogaeth i staff arloesi a gwella medrau darllen disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn angerddol ac mae ganddynt adnabyddiaeth gref o'u hysgol. Maent yn hyderus yn eu rôl fel cyfaill beirniadol ac yn cyfrannu'n werthfawr at brosesau sicrhau ansawdd. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rôl statudol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach a chadw disgyblion yn ddiogel.

Mae arweinwyr wedi sefydlu rhaglen o ddatblygu staff yn broffesiynol sydd yn cydweddu â blaenoriaethau a gwerthoedd yr ysgol. Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer staff sy'n cynnwys cydweithio ag ysgolion eraill, hyfforddiant mewnol a gwaith gyda darparwyr allanol. Darperir cyfleoedd buddiol i staff ddatblygu fel arweinwyr trwy gefnogaeth fewnol a chyrsiau allanol.

Mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr rheolaidd i staff gydweithio ar waith ymchwil buddiol ar feysydd penodol. Mae hyn yn cynnwys datblygu medrau disgyblion, a darparu her i ddisgyblion mwy abl. Mae arweinwyr yn monitro effaith dysgu proffesiynol yn ofalus ac yn addasu'r rhaglen o hyfforddiant, pan fo angen.

Mae gan yr ysgol berthynas agored a chryf â'r rhieni. Maent yn cyfathrebu'n rheolaidd er mwyn rhannu gwybodaeth allweddol a dathlu llwyddiannau disgyblion, er enghraifft trwy'r bwletin wythnosol a'r cyfryngau cymdeithasol.

Cefnogir gwaith monitro gwariant a chyllideb yr ysgol yn gryf gan y rheolwr busnes. Mae'n darparu adroddiadau monitro rheolaidd i'r pennaeth a'r llywodraethwyr sydd yn sail i drafodaethau a phenderfyniadau strategol. Gyda'i gilydd, mae'r pennaeth, y rheolwr busnes a'r llywodraethwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn gwneud defnydd gwerthfawr o grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i gefnogi'r disgyblion mwyaf difreintiedig.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.gov.wales/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.gov.wales/

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 11/05/2023